Jane Hutt AC/AM
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Minister for Business and Budget

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JD/
Lord Dafydd Elis Thomas AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales

28 March 2011

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU GWASTRAFF (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2011

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu ein bod wedi gorfod torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011 i rym. Gwneir y Rheoliadau ar 28 Mawrth 2011 ac fe ddônt i rym ar 29 Mawrth 2011. Isod, rwyf wedi amlinellu cefndir y Rheoliadau a'r rhesymau pam y bu'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod.

Mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig drosi Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff newydd yr Undeb Ewropeaidd (Cyfarwyddeb 2008/98/EC) ("y Gyfarwyddeb") yn gyfraith ddomestig. Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am drosi cyfarwyddebau, gan fod ganddynt yr hawl i wneud deddfwriaeth at y pwrpas hwn gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Yn ogystal, trosglwyddwyd y pwerau yn adran 2 o'r Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd (pwerau i wneud rheoliadau at ddibenion rheoleiddio llygredd) i Weinidogion Cymru: mae'r pwerau hyn hefyd yn galluogi i is-deddfwriaeth gael ei gwneud er mwyn trosi'r Gyfarwyddeb.

Gan nad oes yna unrhyw ystyriaethau o bwys ar sail ffeithiol a fyddai'n cyfiawnhau trosi'r Gyfarwyddeb ar gyfer Cymru mewn modd a fyddai'n wahanol i'r hyn mae angen ei wneud ar gyfer Lloegr, mae Gweinidogion Cymru wedi gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ddatblygu ymgyngoriadau ar y cyd a deddfwriaeth gyfansawdd fyddai'n trosi'r Gyfarwyddeb nid yn unig ar gyfer Cymru ond ar gyfer Lloegr hefyd: Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ("Rheoliadau Cymru a Lloegr").

Y dyddiad cau ar gyfer trosi'r Gyfarwyddeb oedd 12 Rhagfyr 2010. Yn dilyn dau ymgynghoriad cynhwysfawr, y bwriad yn awr yw y daw'r ddeddfwriaeth a gafodd ei throsi i rym ddechrau mis Mawrth. Mae'n hanfodol nad oes rhagor o oedi yn hyn o beth gan ei bod hi'n bosibl nawr y gall y DU wynebu achos o dordyletswydd a allai arwain at ddirwyon ariannol trwm.

Mae'r Gyfarwyddeb yn cyfuno ac yn disodli'r Cyfarwyddebau blaenorol ar wastraff (mae'n diddymu Cyfarwyddebau 75/439/EEC, 91/689/EEC a 2006/12/EC) ac mae hefyd yn cryfhau polisi'r UE ar wastraff mewn meysydd pwysig fel atal gwastraff a lleihau effeithiau cynhyrchu gwastraff ar yr amgylchedd.

Felly, mae trosi gofynion y Gyfarwyddeb yn golygu bod yn rhaid adolygu amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a Lloegr. Mae llawer o'r gwaith hwn eisoes wedi cael ei wneud gan ddefnyddio'r pwerau a drosglwyddwyd neu a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Cymru ac, o ganlyniad, i Weinidogion Cymru, ac mewn sawl achos, maent wedi gwneud y ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru (er bod y cynnwys, yn ei hanfod, yn union yr un fath â'r ddeddfwriaeth gyfatebol a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Lloegr).

Er mwyn diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru (h.y. deddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad neu Weinidogion Cymru), mae angen, wrth reswm, ddiwygio'r fersiynau Cymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Fodd bynnag, gan fod Rheoliadau Cymru a Lloegr yn offeryn cyfansawdd, fe'i gwneir yn Saesneg yn unig. Er hynny, byddai wedi bod yn bosibl i'r Rheoliadau gynnwys diwygiadau i'r fersiynau Cymraeg o'n deddfwriaeth, ond nid oedd Llywodraeth y DU yn fodlon i unrhyw ddiwygiadau gael eu gwneud iddynt am resymau gweinyddol yn ymwneud â'r amserlen trosi.

Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, roedd yn rhaid cynnwys y diwygiadau perthnasol mewn offeryn ar wahân i'w wneud gan Weinidogion Cymru - dyma bwrpas Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau Cymru"). Dylid nodi bod yr holl ddiwygiadau i ddeddfwriaeth Cymru yn Rheoliadau Cymru yn cyfateb i'r diwygiadau i ddeddfwriaeth Lloegr yn Rheoliadau Cymru a Lloegr: nid oes unrhyw wahaniaethau o ran polisi nac o ran effaith ymarferol. Mae'n dilyn felly bod Rheoliadau Cymru, o ran eu natur, yn atodol i Reoliadau Cymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau olaf yn effeithiol o ran trosi'r Gyfarwyddeb o safbwynt Lloegr ond mae bwlch o ran Cymru a bydd Rheoliadau Cymru yn llenwi'r bwlch hwn.

Oherwydd rôl Rheoliadau Cymru o safbwynt rheoliadau Cymru a Lloegr, atodwyd drafft er gwybodaeth o Reoliadau Cymru at y Memorandwm Esboniadol oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau drafft Cymru a Lloegr pan gawsant eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

Yn Rheoliadau Cymru, mae dwy ddarpariaeth sy'n cyfeirio at y darpariaethau yn Rheoliadau Cymru a Lloegr ac sy'n dibynnu arnynt.

Y ddarpariaeth gyntaf yw Rheoliad 5, sy'n diwygio'r diffiniad o "Strategaeth Wastraff Cymru" yn Rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol").). Arwyddocâd hyn yw y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn unol â Rheoliad 13 o Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol, ystyried Strategaeth Wastraff Cymru wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae hyn yn hanfodol oherwydd mae sicrhau cynnwys priodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn un o'r ffactorau allweddol a fydd yn sicrhau effeithiolrwydd Strategaeth Wastraff Cymru wrth gyflawni un o ofynion y Gyfarwyddeb sef bod cynlluniau gwastraff cenedlaethol yn cael eu llunio hefyd.

Mae'r cyfeiriad yn Rheoliad 5 o Reoliadau Cymru a Lloegr (ac felly, y cyfeiriad i drosi gofynion diwygiedig y Gyfarwyddeb ar gyfer cynlluniau gwastraff cenedlaethol) yn gwarantu, yn syml ac yn glir, mai'r ddogfen y bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ei hystyried wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol fydd cynllun gwastraff cenedlaethol sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb.

Yr ail ddarpariaeth yw paragraff 30 o Ran 1 o'r Atodlen, sy'n gwneud darpariaeth i Atodlen 4 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 gael ei disodli gan yr Atodlen a amlinellir yn Rhan 3 o'r Atodlen i Reoliadau Cymru. O dan Ran D o'r Atodlen newydd, mae'n rhaid i gludwyr gwastraff gadarnhau eu bod wedi ufuddhau i'r ddyletswydd i ddefnyddio'r hierarchaeth gwastraff fel y bo'n ofynnol yn ôl rheoliad 12 o Reoliadau Cymru a Lloegr.

O dan Reoliad 35 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n cael gwared ar wastraff peryglus o safleoedd gwblhau nodyn cludo ar ffurf a amlinellir yn Atodlen 4 (neu ar ffurf sy'n gofyn am yr un wybodaeth ac sydd, i raddau helaeth, yn yr un fformat).

Rheswm allweddol dros gyfnewid yr Atodlen 4 newydd yw'r ffaith bod y Gyfarwyddeb yn nodi bod yn rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â gweithgareddau gwastraff gymryd pob cam rhesymol i ddefnyddio'r hierarchaeth o flaenoriaethau'r Gyfarwyddeb ar gyfer gwastraff: h.y. atal, paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, ffyrdd eraill o adfer gwastraff, a chael gwared ar wastraff. Trosir y gofyniad hwn gan Reoliad 12 o Reoliadau Cymru a Lloegr. Bydd y ddyletswydd hon mewn perthynas â hierarchaeth gwastraff yn arbennig o berthnasol lle bo unigolyn yn ystyried cael gwared ar wastraff peryglus. Felly, mewn achos lle trosir rheoliad, mae'n rhaid gwneud darpariaeth er mwyn i'r nodyn cludo ddangos bod yr unigolyn wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Ystyrir nad oedd yna unrhyw ffordd resymol arall o wneud y cyfeiriadau hyn. Yn gyntaf, oherwydd ei bod yn ofynnol i Reoliadau Cymru a Lloegr drosi'r Gyfarwyddeb hon, mae'n dilyn felly nad oedd unrhyw ddarpariaethau statudol cyfredol cyfatebol y gellid bod wedi eu defnyddio yn lle hynny i wneud y cyfeiriadau hynny.

Yn ail, er y byddai, mewn egwyddor, wedi bod yn bosibl rhoi darpariaethau annibynnol gyda Rheoliadau Cymru, byddai hynny wedi bod yn gymhleth. Darpariaethau'n cyfeirio'n uniongyrchol at y Rheoliadau neu'n eu hailadrodd fyddai'r rhain yn hytrach na deddfwriaeth ddomestig, a byddai'r cyswllt uniongyrchol â Rheoliadau Cymru a Lloegr yn cael ei golli: ystyrir bod hyn yn annerbyniol gan fod Rheoliadau Cymru a Lloegr yn darparu ac yn egluro'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y trosi.

Gan nad oedd yna unrhyw opsiynau drafftio boddhaol ar gael ar wahân i'r cyfeiriadau at Reoliadau Cymru a Lloegr, mae'n dilyn felly ei bod hi'n angenrheidiol na ddylid gwneud Rheoliadau Cymru ddim cynt na Rheoliadau Cymru a Lloegr.

Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, ystyrir ei bod hi'n hanfodol dod â'r ddau offeryn i rym ar yr un pryd. Byddai peidio â gwneud hyn yn golygu y byddai'r Gyfarwyddeb yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru ar adeg wahanol ac mewn dull anghyson a byddai hyn yn achosi anghyfleustra sylweddol i bawb yr effeithir arnynt.

Yn olaf, ystyriwyd y ffaith y gall offerynnau a wneir o dan y pŵer galluogi ar gyfer Rheoliadau Cymru (adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972) gael eu gwneud gan ddefnyddio naill ai weithdrefn negyddol neu weithdrefn gadarnhaol. Y sawl sy'n gwneud yr offeryn sy'n gwneud y penderfyniad hwn ac nid oes unrhyw feini prawf wedi'u pennu (gweler adran 59(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae'n dilyn felly, yn ddamcaniaethol, y gallai fod wedi bod yn bosibl gwneud Rheoliadau Cymru ar sail gadarnhaol ac y gallai fod wedi bod yn bosibl dilyn yr un amserlen â Rheoliadau Cymru a Lloegr.

Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd dewis y weithdrefn yn dibynnu ar natur y ddarpariaeth oedd yn cael ei gwneud yn hytrach nag ar ystyriaethau gweithdrefnol. Nid yw Rheoliadau Cymru yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddf Seneddol na Mesur Cynulliad; nid ydynt yn diwygio unrhyw ddarpariaeth a wneir gan Ddeddf neu Fesur a'r unig beth a wnânt yw darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn nherminoleg ac amcanion y Gyfarwyddeb. Penderfynwyd felly na fyddai'n briodol gwneud Rheoliadau Cymru o dan weithdrefn gadarnhaol.

Felly, gan ystyried yr holl faterion uchod, penderfynwyd y byddai'r niwed y byddai torri'r rheol 21 diwrnod yn ei achosi, er yn anffodus, yn llai na'r niwed a'r anfanteision a allai godi yn sgil yr opsiynau eraill oedd ar gael.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor.

Jane Hutt